

IONAWR 2023

# ADRODDIAD DIGWYDDIAD RHWYDWAITH COSTAU BYW

CANOL DE CYMRU

HELEDD FYCHAN AS



Senedd Cymru  
Welsh Parliament



Plaid Cymru  
Party of Wales

# Digwyddiad Rhywdwaith Costau Byw

## Canol De Cymru

Ionawr 26ain 2023 - Clwb y Bont, Pontypridd

Hwn oedd y pedwerydd digwyddiad mewn cyfres o gyfleoedd rhwydweithio yng Nghanol De Cymru a gynhaliwyd gan fy nhîm a minnau ynglŷn â'r argyfwng Costau Byw.

Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf yn Neuadd Eglwys Sant Dyfrig, Trefforest ym mis Chwefror 2022. Clywodd y mynychwyr adroddiadau gan Fanciau Bwyd Pontypridd a Thaf Elái am effaith yr argyfwng Costau Byw ar eu gwaith i geisio sicrhau bod gan bawb fwyd a chartref cynnes a'u bod yn cael eu cyfeirio i wasanaethau eraill. Siaradodd Cynulliad Pobl Cymru yn y digwyddiad hefyd.

Yn nigwyddiad rhwydweithio Taf Elai ym Mhont-y-clun ym mis Gorffennaf 2022, rhoddodd yr elusen People & Work gipolwg ar sefydliadau yn y Rhondda a'r gwaith y maent yn ei wneud gwybodaeth a data yn hygyrch i bobl. Siaradodd banc bwyd Taf Elai am dlodi tanwydd a'u cynllun tocynnau tanwydd.


Yn nigwyddiad Strategaeth Bryncynon ym mis Hydref 2022, clywsom am waith Cyngor ar Bopeth ar draws y Rhanbarth a gwaith y Pantrioedd Bwyd a'r anghenion cynyddol y maent yn eu gweld yng Nghwm Cynon. Rhoddodd Climate Cymru gyflwyniad am eu gwaith a'u gweledigaeth. Mae Climate Cymru yn rhwydwaith gweithredol o bron i 300 o sefydliadau o bob sector a dros 13,000 o unigolion o bob rhan o Gymru, sy'n pryderu am newid hinsawdd a'r cyswllt rhwng hyn ar argyfwng costau byw.

Ym mhob digwyddiad, mae'r rhai a fynychodd wedi gallu cysylltu â sefydliadau eraill am yr argyfwng, rhannu syniadau ac archwilio sut y gallant gydweithio i gefnogi'r gymuned yn lleol.

Ffocws ein digwyddiad diweddaraf ym Mhontypridd ym mis Ionawr 2023 oedd materion rheoli arian a sut mae cynnydd mewn costau yn effeithio ar y defnydd o ynni.

Diolch i'r holl sefydliadau canlynol a fynychodd ac a rannodd eu profiadau:

**Citizens Advice Rhondda Cynon Taf, Cwmpas, Penderyn Community centre, The National Lottery Community fund, New Horizons, Interlink RCT, BCT Wales, Home4U, Coalfields Regeneration Trust, Community Foundation Wales, AgeCymru, Taf Ely Foodbank, local food pantries, GT Wales, YRP Ynysybwl, Penywaun Forward Together and Age connects Morgannwg**





# Siaradwyr yn y digwyddiad

## Manage Money Wales

Cyflwynodd Jenny Hare o Manage Money Wales yn egluro taw prif nod y sefydliad yw i helpu pobl i wneud y mwyaf o'u hincwm. Maent yn cynnal grwpiau cymorth lles ariannol wedi eu harwain gan gyfoedion mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws y Rhondda gan gynnwys:

- **Y Ffactri, Porth**
- **Arts Factory, Glynrhedyn**
- **Cymdeithas Gymunedol Gilfach Goch, Gilfach Goch**
- **Little Shed, Tonypany**

Soniodd Jenny am rai o'r problemau dinistriol y maent yn eu gweld yn ddyddiol megis pobl yn dioddef dirywiad yn eu hiechyd oherwydd diffyg gwres ac eiddo llaith, diffyg maeth a diet gwael, tlodi mewn gwaith a dim mynediad at gymorth ariannol. Gall hyn arwain at ddefnyddio benthycwyr arian didrwydded a dirywiad mewn lles meddyliol.

Gall Rheoli Arian Cymru ddarparu:

- **pecynnau lles bwyd**
- **aiddosbarthu bwyd heb ei werthu**
- **siop rannu gymunedol (eitemau ail law am ddim)**
- **canolbwynt cynnes yn y Porth**
- **pecynnau urddas misglwyf**
- **banc cymorth babanod a banc bra**
- **digwyddiadau cymdeithas pensïynwyr yr henoed (dros 50 oed)**



## Interlink

IMae Imogen yn un o 10 cydlynnydd lles sy'n gweithio ar draws RhCT i roi pobl mewn cysylltiad â phrosiectau a gwasanaethau yn unol â'u hanghenion. Maent yn derbyn atgyfeiriadau gan asiantaethau, meddygon teulu, darparwyr tai, ac maent yn cynnal sgwrsiau 'Beth sy'n Bwysig' i weld sut y gallant gysylltu unigolion â lleoedd a all gynnig cymorth iddynt.

Mae Interlink wedi cofrestru gyda'r Fuel Bank Foundation er mwyn gallu rhoi talebion tanwydd yn gyflym i bobl mewn angen. Pris talebau yw £30 (Haf) neu £49 (Gaeaf). Dim ond mewn mesuryddion rhagdalu (Prepayment meters) y gellir eu defnyddio a gellir eu rhoi hyd at 3 gwaith mewn cyfnod o 6 mis (10 diwrnod ar wahân).

Cymhwysedd – Dim nwy na thrydan, neu rhaid dangos prawf bod y nwy a'r trydan ar fin diffodd.

I gofrestru i ddod yn ddarparwr cysylltwch â [www.fuelbankfoundation.org.uk](http://www.fuelbankfoundation.org.uk)





# Dragon Savers

Dechreuodd Dragon Savers fel yr Undeb Credyd yn Rhondda Cynon Taf yn yr 1980au. Heddiw mae'n cwmpasu Cymru gyfan, mae ganddynt dros 5,000 o aelodau ac fe'i rheoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Maent wedi monitro effaith yr argyfwng costau byw ar eu haelodau ac yn dod i'r casgliadau canlynol:

- Nid yw 'cymorth' ariannol tuag at filiau yn cael ei wario ar filiau am fod yr arian yn cynnal blaenoriaethau eraill aelwydydd oherwydd y rheidrwydd argyfyngus
- Maent yn cael mwy o geisiadau am fenthyciadau ond yn gallu cymeradwyo llai.
- Gallant weithio gyda grwpiau cleientiaid bregus fel cyn-garcharorion, neu bobl sydd wedi'u hallgáu'n ariannol
- Roedd cyfartaledd benthyciadau yn y gorffennol tua £500. Nawr gofynnir iddynt am £150 ar gyfartaledd gydag ad-daliadau o £3-£4 yr wythnos.
- Yswiriant Bywyd - Nid yw cyfraddau llog Dragon Savers ar fenthyciadau a chynilion bob amser yn gystadleuol ond mae'r polisi yswiriant bywyd o £5,000 sydd ar gael gyda chynllun cynilo yn ddeniadol i aelodau.

Un o werthoedd craidd Dragon Savers yw darparu addysg ariannol ac maent yn ceisio gwneud rhywfaint o hyn trwy gyfrifon eu plant.

Cyngor ar ddyledion – maent yn aml yn cyfeirio at Cyngor ar Bopeth neu Stepchange oherwydd defnydd amhriodol o IVAs a werthir i bobl.

## Negeseuon Allweddol o'r Rhwydwaith

Mae gennym rai syniadau gwych o ganlyniad i'n trafodaethau, a materion y gellir eu codi yn y Senedd. Roedd yr adborth yn cynnwys yr awgrymiadau hyn:

- Mae angen i ni ofalu am iechyd a lles gweithwyr yn y sector. Dywed rhai eu bod yn teimlo wedi'u lleth.
- Mwy o addysg ariannol i bobl ifanc – mae llawer o bobl nad ydynt yn deall materion fel cyfraddau llog
- Gwahodd siaradwyr eraill o Lywodraeth Cymru neu'r Senedd i fod yn bresennol ac adrodd ar ddiweddariadau perthnasol
- Mae tystiolaeth o ddefnydd amhriodol o Drefniadau Gwirfoddol Unigol (IVA) i ddelio â dyled. Gellid codi hyn gyda Llywodraeth Cymru
- Darparu mwy o wybodaeth am hawliau defnyddwyr o ran tanwydd, dŵr, ynni
- Ystyried cynnal gweithdai i'r cyhoedd
- Rhannu gwybodaeth am 'Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi'
- Defnyddio teithio a chludiant fel thema
- Gwahodd Rhentu Doeth Cymru a rhannu gwybodaeth am opsiynau gwella tai
- A ddylai Cymru gael comisiynydd bwyd cynaliadwy fel yr Alban?
- Hoffai aelodau'r rhwydwaith gael cyfleoedd i ymweld â phrosiectau ei gilydd

# Cyfeiriadur i Aelodau

Cytunodd pawb fod y cyfeiriadur drafft yn ddefnyddiol. Roedd awgrymiadau i'w wella:

- Gallwn ni gael symbolau ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau
- Cynnwys ragor o wybodaeth am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu

mae copiâu o'r cyfeiriadur wedi'u rhannu â'r mynychwyr ond mae croeso i sefydliadau lleol gysylltu â'm swyddfa os ydynt yn dymuno derbyn copi.

## Pam fod y rhwydwaith yn bwysig

Mae cynnal digwyddiadau rheolaidd gyda sefydliadau cymunedol a chefnogi unigolion sy'n cysylltu â mi i chwilio am gyngor wrth wynebu heriau, wedi fy ngwneud yn ymwybodol iawn o ba mor anodd yw bywyd i nifer cynyddol o unigolion a theuluoedd yn ein hardal.

Mae'r swyddfa yn gweld cynnydd mewn gwaith achos. Problemau tai, mynediad at wasanaethau iechyd a llifogydd yw'r materion a godir amlaf. Dangosodd astudiaeth ddiweddar gan Gyngor ar Bopeth De Ddwyrain Cymru fod yr ardal hon yn wynebu'r costau rhent cyfartalog uchaf yng Nghymru. Amcangyfrifir y bydd 45% o gartrefi yng Nghymru yn dioddef o dlodi tanwydd yn dilyn y cynnydd a ddigwyddodd ym mis Ebrill 2022. Efallai mai'r peth mwyaf pryderus oll yw bod adroddiad Cyngor ar Bopeth yn nodi eu bod yn gweld cynnydd o 300% yn nifer y cleientiaid sy'n hunan ddatgysylltu. o'u cyflenwadau tanwydd.



# Sut ydw i, a fy swyddfa yn helpu?

- Rwy'n darparu gweithwyr achos i'r rhai sy'n gofyn am help
- Rwy'n trefnu digwyddiadau rhwydweithio fel y gall sefydliadau gydweithio
- Rwy'n cefnogi grwpiau cymunedol yn uniongyrchol pan fo'n bosibl
- Rwy'n codi materion ac yn ymgyrchu'n wleidyddol ar sail fy mhrofiadau'n lleol
- Cyfeiriaf at amrywiaeth eang o wasanaethau arbenigol

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, rwyf wedi codi nifer o gwestiynau yn uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru gan gynnwys:

- Effeithiau'r argyfwng ynni ar hosbisau plant yng Nghymru
- Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi awdurdodau lleol yng Nghanol De Cymru i gynnal eu gwasanaethau statudol a'u gwasanaethau anstatudol yn dilyn setliad y gyllideb?
- Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi awdurdodau lleol i sicrhau cartref i bawb sydd angen un yng ngoleuni'r argyfwng costau byw?
- Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau nad yw costau cludiant yn effeithio ar bresenoldeb dysgwyr yn yr ysgol?
- Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi dysgwyr y mae'r argyfwng costau byw wedi effeithio ar eu mynediad i addysg?
- Sut y mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth i bawb yr effeithir arnynt gan yr argyfwng costau byw gan gynnwys cymorth i fanciau bwyd?
- Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau cymorth i berchnogion anifeiliaid anwes o ganlyniad i'r argyfwng costau byw?

Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn ar gael yma: [cofnod.senedd.cymru](https://cofnod.senedd.cymru)



## CYSYLLTWCH Â HELEDD

- 📞 01443 853214
- ✉ [Heledd.Fychan@Senedd.Cymru](mailto:Heledd.Fychan@Senedd.Cymru)
- 📍 2 High Street, Pontypridd, CF37 1QJ
- 📘 Heledd Fychan AS / MS
- 🐦 @Heledd\_Plaid
- 📷 @Heledd\_Plaid